**Julie Morgan AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-804
Ein cyf/Our ref JM/05086/19

David John Rowlands AC
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

20 Chwefror 2019

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1Chwefror at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn ag ystyriaethau presennol eich pwyllgor o ddeiseb gan RAY Ceredigion am gyllid ar gyfer chwarae. Rydw i'n ymateb i'ch llythyr gan fod polisi chwarae yn rhan o'm portffolio i.

Nodaf fod y Pwyllgor wedi gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ar y cyllid ar gyfer chwarae yn 2019-20. Cyn i mi ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf, hoffwn eich atgoffa o hanes y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae. Pan roddwyd dyletswydd ar awdurdodau lleol dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 "i asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae yn eu hardal. . .", nodwyd yn glir na fyddai unrhyw gyllid penodedig gan Lywodraeth Cymru'n cael ei ddyrannu. Fodd bynnag, yn 2014 pan gyflwynwyd ail hanner y ddyletswydd, a oedd yn galw am i "awdurdodau lleol sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd, cyn belled â bo hynny'n ymarferol, .....", cafodd y ddyletswydd gefnogaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol ar y ddealltwriaeth, pan fyddai cymorth ariannol ar gael, y byddai'n cael ei ddefnyddio i gefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt gydymffurfio ag adran hon y ddyletswydd.

Rydym wedi parhau i ddangos ein hymrwymiad i'r dyraniad o £6.7 miliwn dros y chwe blynedd diwethaf. Mae'r cyllid refeniw wedi bod ar gael drwy Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan (AWPOG).

Yn ychwanegol, yn y flwyddyn ariannol hon, yn dilyn y broses o ailflaenoriaethu cyllidebau, daeth £2 miliwn o gyllid ychwanegol ar gael drwy AWPOG. Mae amodau'r grant yn fwy penodol er mwyn sicrhau y gall awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r camau gweithredu coch ac ambr a oedd wedi'u cynnwys yn y camau gweithredu ar gyfer eu Hasesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (PSA) ac nad oeddent wedi'u cyflawni'n flaenorol. Mae'r £2 miliwn yn cynnwys £10,000 i bob awdurdod lleol er mwyn eu helpu i ganolbwyntio ar lunio PSA cadarn ar gyfer 2019 erbyn diwedd mis Mawrth 2019, gydag ystadegau lleol cyfredol ac ystyrlon.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn unol â'r cytundeb gwreiddiol, byddwn yn parhau i adolygu ein sefyllfa gyllid yn wyneb yr adnoddau sydd ar gael ar y pryd.

Mae fy swyddogion yn gofyn am safbwyntiau sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector chwarae ynglŷn ag a fyddai adolygiad annibynnol o'r agenda chwarae yng Nghymru yn briodol, o gofio'r datblygiadau dros y blynyddoedd diweddar.

Mawr obeithiaf y bydd yr atebion uchod o gymorth i'r Pwyllgor.

**Julie Morgan AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services